

PLANED

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllun Gweithredu Spittal

Paratowyd gan

GYMUNED SPITTAL

ar y cyd â

PLANED

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro
er Menter a Datblygu

CYNNWYS **TUDALEN**

Cefndir y Cynllun Gweithredu	1
Ardal y Cynllun Gweithredu	1
Lle Arbennig	2
Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol	3
Cychwyn Gweithredu	3
Cynigion ar gyfer y Cynllun Gweithredu	
1. Gweithgareddau a chyfleusterau cymunedol	4
2. Yr Amgylchedd	7
3. Gwastraff, ailgylchu ac ynni	8
4. Treftadaeth a Diwylliant	8
5. Menter, busnesau a Thwristiaeth	9
6. Cludiant, ffyrdd a thraffig	10
7. Tai a Gwasanaethau	11
Gweithgorau / Grwpiau Gweithredu	12
Y Darlun Mwy	13

Ymgorfforwyd darganfyddiadau a chanlyniadau holiadur cymunedol i'r Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn ei drafod a'i fabwysiadu adeg cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2009

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Yn niwedd 2008, yn dilyn cyflwyniad gan PLANED, cytunodd Cyngor Cymuned Spittal i ymgymryd â phroses Cynllun Gweithredu cymunedol er mwyn adlewyrchu anghenion lleol yn ogystal â dyheadau ar gyfer datblygu'r gymuned yn y dyfodol. Yn ystod mis Chwefror 2009, hwylusodd PLANED ddau weithdy Cymunedol yn Ysgol Gynradd Spittal a oedd yn cynnwys y gweithgareddau a ganlyn:

- Rhywbeth Arbennig – dathlu nodweddion arbennig y gymuned
- Archwiliad Cymunedol – rhestru'r prif nodweddion a chyfleusterau
- Y Gymuned yn y Darlun Mwy – materion byd-eang a lleol
- Gwendidau, Bygythiadau, Cryfderau a Chyfleoedd
- Y Weledigaeth ar gyfer 2020 – dyheadau ar gyfer y dyfodol
- Archwiliad o Sgiliau ac Adnoddau – dangos yr amrywiaeth o sgiliau lleol
- Trosi syniadau yn Gamau Gweithredu – defnyddio'r wybodaeth i gynllunio prosiectau.

Ymgorfforwyd darganfyddiadau'r Gweithdy a chanlyniadau holiadur cymunedol i'r Cynllun Gweithredu hwn. Fe'i dosbarthwyd ymhlith yr holl drigolion cyn ei drafod ac fe'i mabwysiadwyd yn y cyfarfod cyhoeddus. Y prif reswm a nodwyd ar gyfer anhawster i fynychu cyfarfodydd oedd ymrwymiadau gwaith. Fe ymatebodd gyfanswm o 37 teulu i'r holiadur cymunedol, sy'n cynrychioli 93 person, 20 yn 60 oed neu'n hŷn, 42 rhwng 41 a 59 oed, 31 rhwng 18 a 40 oed a 28 dan 18 oed. Roedd 20 teulu wedi byw yn y gymuned ers dros 16 mlynedd, a 12 wedi byw yn ardal Spittal ers rhwng 6 a 15 mlynedd. Roedd y gweddill wedi byw yma ers llai na 5 mlynedd.

Roedd y rhesymau dros symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, os na chawsant eu geni yma, yn ymwneud ag enw da'r ysgol gynradd, y gymuned brydferth a chyfeillgar, bod yn agos i Hwlffordd i weithio

ac oherwydd y lleoliad canolog gyda mynediad hwylus i'r traethau a chefn gwlad. Y rhesymau dros unrhyw fwriad i symud o'r gymuned oedd diffyg tai fforddiadwy, rhesymau teuluol ac ar gyfer addysg a chyflogaeth. Nododd 6 theulu'r angen am dai lleol yn y dyfodol, yn enwedig eiddo fforddiadwy i'w rhentu a'i brynu.

ARDAL Y CYNLLUN GWEITHREDU



Mae cymuned wledig Spittal wedi'i lleoli yng nghanol Sir Benfro, 5 milltir o dref farchnad Hwlffordd. Yn ffin i'r plwyf y mae Ffordd Clarbeston i'r dwyrain, Rudbaxton i'r de, Trefgarn i'r gorllewin, a Chas-blaidd i'r gogledd.

Mae'r gymuned wedi'i lleoli ar Afon Cleddau Wen, sy'n ffurfio'r ffin ar yr ochr orllewinol, a chaiff y pentref ei rannu gan ffyrdd tyrpeg sy'n arwain o Hwlffordd i Aberteifi ac yna i Abergwaun.

Â phoblogaeth o 500 o bobl, mae sawl man cyfarfod yn Spittal, megis Neuadd yr Eglwys, yr Ysgol Gynradd a'r Tŷ Tafarn.

Mae yna blac yn y pentref sy'n datgan y gellid olrhain tarddiad enw'r pentref o'r gair 'hospitium' (sef enw Lladin ar lety i bererinion) a oedd yn arfer sefyll yno ac a oedd yn perthyn i Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

LLE ARBENNIG

Yn ystod y Gweithdai Cymunedol, roedd y trigolion wedi adnabod bod Spittal yn lle diogel a chlos i fyw ynddo gyda chydbwysedd poblogaeth sy'n gyfeillgar ac yn groesawgar.

Mae'r trigolion yn gwerthfawrogi Spittal am ei nodweddion gwledig arbennig a'i leoliad canolog cyfleus. Ystyrir bod Spittal yn "gymuned byw a gweithredol" â nifer o ffermydd a busnesau lleol. Spittal, ynghyd â'i harddwch a'i dawelwch. Â chlwt y pentref a

Mae'r trigolion hefyd yn parchu ansawdd yr amgylchedd lleol yn Spittal, ynghyd â'i harddwch a'i dawelwch. Â chlwt y pentref a theithiau cerdded da i fwynhau'r bywyd gwyllt amrywiol, mynegodd un o'r trigolion lawenydd o fod yn gallu "gweld y sêr" oherwydd mai ychydig iawn o lygredd golau sydd yn y pentref.

Mae'r trigolion yn arbennig o falch o'r ysgol gynradd leol, ac mae nifer yn ystyried ei bod yn ysgol 'bentref' go iawn, ynghyd â'r mwynderau a'r cyfleusterau eraill megis y "tŷ tafarn cyfeillgar" a "neuadd y pentref sy'n cael ei defnyddio'n helaeth".

GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r trigolion yn meddu ar weledigaeth ar gyfer y dyfodol, sy'n defnyddio'r hyn sydd yno'n barod i'w llawn botensial. Pan ofynnwyd iddynt ddychmygu eu cymuned ddelfrydol mewn deng mlynedd, roedd eu hawgrymiadau'n cynnwys:

- ❑ Canolfan Gymunedol sy'n Darparu ar gyfer Pobl Ifanc
- ❑ Clwt y Pentref sy'n cael ei Ddefnyddio'n Rheolaidd
- ❑ Mwy o Weithgareddau Cymunedol
- ❑ Rhandiroedd
- ❑ Gwell Fflora a Ffawna
- ❑ Gwarchodfa Natur ar y Comin
- ❑ Ynni Cynaliadwy â Chymhorthdal gan y Llywodraeth
- ❑ Gwasanaeth Bws Mwy Aml
- ❑ Llwybr Beicio i Scolton a Hwlffordd
- ❑ Annog Busnesau Preswyl
- ❑ Cyfeiriadur Busnesau / Sgiliau Lleol
- ❑ Cyrtiau Tennis
- ❑ Cylchlythyr
- ❑ Gofal Cymunedol Cynhwysfawr
- ❑ Tai Fforddiadwy
- ❑ Nwy o'r Prif Gyflenwad
- ❑ Band Eang sy'n fwy Cyflym a Dibynadwy

CYCHWYN GWEITHREDU

Mae trigolion Spittal wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i'w Cymuned, ac roedd nifer o gyfranogwyr yn y gweithdai Cymunedol yn fodlon cefnogi a chymryd rhan yn y broses o sefydlu Fforwm Cymunedol ar gyfer Spittal.

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn yw cyflwyno rhywbeth i'r gymuned ganolbwyntio arno i gynllunio a datblygu prosiectau a gweithgareddau cynaliadwy yn Spittal sydd wedi'u pennu gan bobl leol.

1.GWEITHGAREDDAU A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Sylwadaeth:
Oherwydd natur glos y gymuned, mae trigolion Spittal yn hynod ffodus o gael nifer o gyfleusterau y gellid eu defnyddio fel mannau cyfarfod canolog ar gyfer y gymuned.

Yn 2004, adeiladwyd ysgol gynradd gymunedol newydd, wedi'i lleoli ar ochr orllewinol pentref Spittal, i'r gogledd o stad dai Southgate Park. Mae'r ysgol newydd yn darparu cwricwlwm modern mewn llety hyblyg ac addasadwy ar gyfer y 130 o ddisgyblion sy'n mynd yno. Mae'n gwbl hygyrch ac mae'n darparu cyfleusterau cymunedol ychwanegol. Mae wedi'i hadeiladu i safon uchel, mae'r ystafelloedd mawr helaeth wedi'u goleuo a'u hawyru'n naturiol sy'n rhoi amgylchedd dysgu dymunol i'r disgyblion a'r staff. Mae mynediad rhagorol i'r fynedfa groesawgar yn ogystal â dulliau rheoli diogelwch. Croesewir y gymuned i mewn i'r ysgol.

Mae yna fannau addoli amrywiol o fewn pentref Spittal. Mae Eglwys y

Bedyddwyr Salem, Eglwys y Santes Fair ac Eglwys Ddiwygiedig Unedig Mynydd Seion oll yn cynnig gwasanaeth.

Mae yno hefyd Neuadd yr Eglwys (llun ar y dde) yng nghanol y pentref wrth ochr clwt y pentref. Caiff y neuadd ei defnyddio'n helaeth gan y gymuned, ac mae grŵp Mam a Phlentyn a chylch chwarae yn cyfarfod yno bob dydd. Mae'r Eglwys hefyd yn trefnu gyrfa chwist bob mis i godi arian ar gyfer yr eglwys. Mae Dawnsio Llinell, Dosbarthiadau Cyfrifiadur, Cerdd a Symudiad a Chadw'n Heini oll yn defnyddio'r neuadd.

Mae'r trigolion yn parchu clwt y pentref a'r parc chwarae cyfagos (llun ar y chwith), mae'n dod ag ansawdd tawel i'r gymuned ac mae ganddo botensial i ddod yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol allan yn yr awyr agored. Mae ymarfer cymunedol ar glwt y pentref yn ddyhead ar gyfer y dyfodol.

Caiff Tŷ Tafarn y "Pump on the Green" hefyd ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol, megis cynnal grŵp dartiau, gemau pŵl a noson gwis wythnosol.

Defnyddir clwb Iechyd a Hamdden Scolton (ym mythynnod Scolton) gan nifer o drigolion Spittal i helpu cadw'n heini. Mae dosbarthiadau aerobeg dŵr yn ogystal â sesiynau ffitrwydd yn y gampfa ar gael bob dydd, ynghyd â hyfforddiant personol, sawna ac ystafell stêm.

Er bod llawer o'r cyfleusterau hyn yn cael eu gwerthfawrogi, roedd ymdeimlad cyffredinol y gellid defnyddio'r cyfleusterau hyn fwy gan y gymuned i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r trigolion yn gweld bod yna botensial i gynnal y carnifal blynyddol ar Glwt y Pentref, ynghyd â'r posibilrwydd o drefnu digwyddiad i ddathlu enw unigryw'r pentref. Roedd y trigolion hefyd wedi meddwl am syniadau i gynnal gweithgareddau cymunedol yn

rheolaidd megis dosbarthiadau cadw'n heini, gemau criced a gweithdai crefftau.

Roedd yr archwiliad o'r sgiliau a'r hyfforddiant yn y gymuned a wnaed yn ystod y gweithdai darlunio wedi awgrymu bod gan y trigolion ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae'r rheiny'n amrywio o arddio a chelf a chrefft, i gadw cyfrifon a sgiliau TG; i ysgrifennu datganiadau i'r wasg a pharatoi bwyd i ofal plant a sgiliau cerddorol. Gellid defnyddio pob un o'r sgiliau hyn wrth ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau ar gyfer y gymuned.

Er mwyn rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn y gymuned, defnyddir yr hysbysfyrddau'n bennaf (mae yna ddau hysbysfwrdd yn y gymuned ar hyn o bryd), cylchgrawn yr eglwys ac ar dafod leferydd. Roedd pob un o'r trigolion a gafodd eu holi wedi cytuno bod angen sicrhau gwell dulliau cyfathrebu yn y fro, fel bod pawb yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n cael eu trefnu yn y gymuned.

Mae ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn gofalu am eu hiechyd ac y buasent yn hoffi cael mwy o gyfleoedd i wneud ymarfer corff. Roedd gwell iechyd corfforol, gwell llwybrau troed a llwybrau beicio lleol, cyfleusterau gofal plant a chyfleusterau lleol ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer ei gwneud yn haws i wneud ymarfer corff. Y ffyrdd mwyaf poblogaidd o wneud ymarfer corff yw cerdded, garddio, nofio, rhedeg a beicio.

Roedd yr Holiadur Cymunedol yn dangos bod 5 o'r ymatebwyr yn defnyddio gofal plant, 1 yn defnyddio teulu agos, 3 gwarchodwr plant cofrestredig, 1 creche preifat ac 1Clwb Tu Allan i'r Ysgol.

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Spittal, CSP ac asiantaethau lleol eraill i:

- Ffurfio pwyllgor digwyddiadau i ddatblygu mwy o weithgareddau yn y fro, ac mae'r syniadau'n cynnwys:
  - Dyddiau cymunedol yn neuadd y pentref / ar glwt y pentref
  - Carnifal blynyddol
  - Prydau hwyl cymunedol yn neuadd y pentref / ar glwt y pentref – barbeciwiau, clybiau cyri, picnics cymunedol a cherddoriaeth
  - Arwerthiannau cist car
  - Nosweithiau ffilm cymunedol
  - Clwb llyfrau
  - Mwy o weithgareddau chwaraeon lleol
  - Teithiau cerdded cymunedol.

- Gwella'r Ardal Chwarae i Blant yn y pentref, a'i chynnal a'i chadw
- Cysylltu â phobl ifanc a'r rhai yn eu harddegau yn y fro i gefnogi datblygu mwy o weithgareddau ar gyfer y rhai yn eu harddegau a'u teuluoedd gyda'i gilydd
- Llunio rhwydwaith cyfathrebu, a allai ddatblygu cylchlythyr / e-gylchgrawn cymunedol yn rhestru'r holl ddigwyddiadau yn y fro.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o swmp-brynu nwyddau sylfaenol ar y cyd (megis olew tanwydd)
- Datblygu gwefan ar gyfer y pentref i gyfnewid sgiliau a chynnyrch lleol.
- Gweithio gyda Neuadd yr Eglwys i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal bowls dan do.
- Rhoi enw Spittal i lawr ar gyfer cystadleuaeth pentref i ddod â'r gymuned at ei gilydd a darparu cymuned ffocws

2. YR AMGYLCHEDD

Sylwadaeth:
Mae yna rwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffylau â digon o arwyddbyst trwy'r pentref. Mae nifer o'r trigolion yn teimlo bod cyfle da i drefnu teithiau cerdded cymunedol ar hyd y llwybrau troed lleol, ac felly cynnal a chadw'r llwybrau a gwella'r ysbryd

cymdogaethol, gan fwynhau gweithgaredd iach yr un pryd.

Mae'r gymuned yn teimlo bod y pentref yn meddu ar nodwedd ddeniadol ac mae ganddo botensial da i sefydlu clwb garddio, a allai gyfnewid gwybodaeth arddio ddefnyddiol i drigolion, cefnogi'r rhai y mae angen cymorth arnynt â'u gerddi, a hefyd ddatblygu 'cystadleuaeth garddio bwytadwy / creadigol'. Roedd gan y trigolion hefyd ddiddordeb mewn sicrhau bod rhandiroedd ar gael yn y gymuned.

Mae gan Spittal ddwy ardal o dir comin i'r gogledd a'r de o'r gymuned.

Mae'r comin deheuol yn gyfuniad o laswelltir corsiog gwlyb, gweundir gwlyb a sych a helyg ac eithin prysg. Gweddol dda ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt y byddech yn ei gysylltu â'r cynefin hwnnw fel arfer - pryfed amrywiol gan gynnwys pili-palaod, rhywogaethau gweision y neidr/mursennod, asffodel y gors, tegeirianau'r gors a thegeirianau brith. Cafwyd rhaglen yn ddiweddar i geisio gwaredu Llysiau'r Dial a oedd yn eithaf rhemp yn adran ogledd ddwyreiniol y comin.

Mae'r comin gogleddol yn goetir prysg ar y cyfan, gyda nant, ac, yn gyffredinol, mae'n anhygyrch ar wahân i'r ymyl gogledd orllewin eithafol ble mae'r hawl tramwy yn rhedeg trwyddo am tua 75 metr.

Er bod y ddwy ardal hon yn fynediad agored, yn ymarferol prin iawn yw'r cyfleodd yn yr adran ogleddol, a gan fod gan yr adran ddeheuol rai ardaloedd corsiog, gwlyb iawn, dylid cymryd gofal sylweddol wrth gerdded i ffwrdd oddi wrth yr Hawl Tramwy Cyhoeddus.

Roedd yna gynlluniau i wella'r ddau gynefin yma ymhellach, ond bu'n rhaid gohirio'r rhain hyd nes bod nawdd ar gael.

Cynigion:
Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir i:

- ❑ Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael rhandiroedd cymunedol
- ❑ Sefydlu grŵp garddio i weithio gyda'i gilydd i:
  - ♦ Wella ymddangosiad y pentref, datblygu arddangosfeydd o flodau yn y pentref.
  - ♦ Cystadleuaeth garddio creadigol neu fwytadwy
  - ♦ Annog y gymuned encourage i "dyfu ei hunan" ac ymwneud â byd natur
- ❑ Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael golau ar gyfer Golden Hill,
- ❑ Ceisio gwella mynediad at lwybrau troed y pentref, a'u cynnal a'u chadw
- ❑ Gweithio gyda Phrosiect Gweundir Byw Sir Benfro i wella gwerth y tir comin o ran bioamrywiaeth. http:// www.rhos.org.uk

3. GWASTRAFF, AILGYLCHU AC YNNI

Sylwadaeth:
Mae ymwybyddiaeth dda ymhlith y trigolion o faterion byd-eang sy'n cael effaith ar ddyfodol y gymuned. Mae nifer ohonynt yn defnyddio'r cynllun casglu Bagiau Oren a ddarperir gan y Cyngor Sir i ailgylchu plastig a phapur aelwydydd. Roedd y trigolion yn teimlo y gellid gwneud mwy yn y gymuned i leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi e.e. datblygu menter Ailgylchu gymunedol. Gosodwyd cyfleuster ailgylchu Banc Poteli newydd yn y 'Pwmp ar y Porfa' yn ddiweddar.

Roedd hefyd cryn ddiddordeb ymhlith y trigolion i sefydlu grŵp ynni lleol i edrych i mewn i'r posibilrwydd o ffynonellau ynni eraill a swmp-brynu, gallai'r grŵp hwn ofyn am gymorth gan rwydweithiau Ynni eraill yn Sir Benfro, er enghraifft, Rhwydwaith Ynni'r De Ddwyrain a'r fenter Carbon Niwtral yn Aberllydan.

Cynigion:
Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir i

- ❑ Ymchwilio i'r posibilrwydd o:
  - ♦ ddatblygu ynni gwynt yn y gymuned
  - ♦ darparu Canolfan Ailgylchu Gymunedol
- ❑ Sefydlu fforwm ynni i edrych ar:
  - ❑ effaith amrywiol ffynonellau ynni cynaliadwy megis melinau gwynt, ynni dŵr a haul
  - ❑ prynu adnoddau'n rhatach fel grŵp

4. TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Sylwadaeth:
Mae hen adfail yn sefyll oddeutu canllath i'r de ddwyrain o'r eglwys, sy'n ymestyn dros bron i acer o dir, a dywed iddo fod yn 'hospitium', neu ysbyty, a chredir i'r gair Spittal darddu ohono. Yn ôl traddodiad, codwyd yr adeiledd hwn gan fynachod Tyddewi, mewn cyfnod cynnar, fel llety i bererinion i gysegrfa Tyddewi: caiff yr hanes hwnnw ei gadarnhau rhyw fymryn gan amgylchiadau'r degymau yn y plwyf sy'n dal i berthyn i urddasolion yr eglwys gadeiriol.

Yn y Plwyf, mae yna hefyd nifer o adfeilion hen wersylloedd, a elwir yma'n 'rathlannau', ac mae un ohonynt yn sefyll ar gopa'r bryn conigol sy'n codi'n sydyn yn y dyffryn, ac mae'r llecyn, sy'n ymestyn dros oddeutu dwy acer bron yn grwn, ac wedi'i amgáu gan ragfur sengl. Roedd capel gerllaw, wedi'i gysegru i Sant Leonard, ac fe gafodd y capel, ynghyd ag eglwys Rudbaxton, eu cyflwyno gan Alexander Rudebac i gomandwr marchogion Sant Ioan o Jerwsalem, yn Slebets. *(detholiad o "British History Online")*

Dangosodd y gymuned ddiddordeb mewn sefydlu grŵp treftadaeth leol i gyfosod gwybodaeth hanesyddol leol. Mae yna nifer o adnoddau yn y fro i helpu i gasglu gwybodaeth o'r fath, er enghraifft, Parc Treftadaeth Scolton Manor (llun ar y dde)

Cynigion: Gweithio gyda Chyngor Cymuned Spittal, CSP ac asiantaethau lleol eraill i:

- Sefydlu Grŵp Hanes Lleol i
  - Ymchwilio i Darddiad Spittal a'r Cyffiniau
  - Crynhoi Hanes y Pentref,
  - Llunio Hanes y Pentref
  - Rhoi safleoedd Hanesyddol a Threftadaeth ar fap a'i arddangos

5. MENTER, BUSNESAU A THWRISTIAETH

Sylwadaeth:
Mae nifer o drigolion yn falch bod yna nifer o fusnesau yn y gymuned; ar hyn o bryd, mae yna sawl fferm, oriel ffotograffiaeth, tŷ tafarn, bythynnod gwyliau a chlwb iechyd, meithrinfa planhigion, modurdy, trydanwr a thriniwr gwallt ayb. Serch hynny, roedd llawer yn teimlo y gellid rhoi mwy o gefnogaeth i'r gwasanaethau hyn, ac y dylid annog datblygu busnesau newydd.

Un argymhelliad oedd datblygu cyfeiriadur busnesau a sgiliau lleol, i sicrhau bod yr holl drigolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau yn y fro a allai arwain at gyfle cydweithredol i ddod a phrynu cynnyrch lleol.

Mewn "cymuned ddelfrydol" hoffai trigolion Spittal gael siop gymunedol, fodd bynnag mynegwyd pryderon ynghylch pa mor ymarferol fyddai'r gwasanaeth hwn. Trafodwyd y posibilrwydd o gael siop deithiol. Cafodd Swyddfa Bost y pentref ei chau'n ddiweddar, felly bydd cyfleuster teithiol yn galw heibio'r pentref sawl gwaith yr wythnos yn ei lle.

Roedd canlyniadau'r holiadur cymunedol yn dangos bod 13 o'r rheiny a ymatebodd yn berchen ar fusnes yn y gymuned, neu'n ei rheoli, gan gyflogi 8 llawn amser a 5 rhan amser. Roedd 9 ohonynt yn berchen ar eu safleoedd eu hunain. Gan bod y rhan fwyaf yn hunangyflogedig, nid oes trafferth cyflogi staff. Fe fuasai help gyda marchnata, swyddfa bost leol, mwy o arferion lleol a gwell

trafnidiaeth gyhoeddus yn gymorth sylweddol i fusnesau bach lleol.

Cynigion:
Gweithio gyda Chyngor Cymuned Spittal, CSP ac asiantaethau lleol eraill i:

- ❑ Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu marchnad o gynnyrch lleol – gwerthu llysiau, planhigion ac wyau cartref ayb.
- ❑ Sefydlu rhwydwaith busnesau i:
  - ♦ ddatblygu cyfeiriadur busnesau a Sgiliau lleol fydd yn cael ei ddiweddaru unwaith y flwyddyn
  - ♦ creu siop gydweithredol ar gyfer ffrwythau a llysiau.
  - ♦ darparu llwyfan ar gyfer cyfnewid nwyddau nas dymunir.
- ❑ Fel cymuned, cefnogi busnesau lleol ac annog datblygu busnesau newydd yn y fro.
- ❑ Ymchwilio i ddichonoldeb datblygu siop gymunedol
- ❑ Ymchwilio i'r syniad o sefydlu siop deithiol reolaidd.

6. CLUDIANT, FFYRDD A THRAFFIG

Sylwadaeth:
Mae'r ddarpariaeth o gludiant cyhoeddus yn Spittal yn gyfyngedig (unwaith yr wythnos) ac un lloches fysus sydd yng nghanol y pentref. Mae pobl leol yn bryderus ynghylch dichonoldeb y gwasanaeth presennol.

Mae hygyrchedd Hwlffordd hefyd yn bwysig i bobl Spittal, ac er gwaethaf y ffaith nad oes gwasanaeth bysus mwy rheolaidd i'r brif dref farchnad, nid yw nifer o'r trigolion yn dymuno colli'r "Bws Dydd Gwener". Byddai rhai trigolion wedi'u hynysu petai'r gwasanaeth yn cael ei stopio, oherwydd byddai'n rhaid dibynnu ar geir preifat yn gyfan gwbl.

Mae'r ffyrdd yn gymharol ddistaw ac nid oes angen sefydlu unrhyw fesurau tawelu traffig trwy'r pentref ar hyn o bryd, fodd bynnag gofynnir am gyfyngu cyflymder i 20mya wrth fynd heibio i'rsgol. Anogir pobl i yrru'n gyfrifol. Mae'n arbennig o berthnasol gan fod nifer o bobl yn cerdded, yn mynd ar gefn beic ac yn marchogaeth ceffylau.

Mae nifer o drigolion yn awyddus i weld llwybrau beicio yn cysylltu Spittal i lwybrau beicio Hwlffordd ac Abergwaun. Mae yna ddymuniad hefyd i gael llwybr beicio trwy Barc Gwledig Sgolton.

Roedd canlyniadau'r holiadur cymunedol yn nodi'r car fel y dull mwyaf poblogaidd o deithio i'r gwaith, i siopau ac i gyfleusterau. Roedd 28 ymateb yn nodi mai dyma oedd eu prif ffordd o deithio tra byddai'n well gan 24 o'r bobl a atebodd i ddefnyddio'r bws/ trafnidiaeth gyhoeddus ble'n bosib gan ei fod yn well i'r amgylchedd, yn rhatach ac yn rhoi mynediad annibynnol i bobl ifanc i Hwlffordd. Teimlir hefyd ei fod yn fwy cymdeithasol. Maen nhw'n teimlo bod diffyg gwasanaeth bws cyfleus, heolydd peryglus a thaith hir i'r prif arosfannau bysiau yn rhesymau dros beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Cynigion:
Gweithio gyda Chyngor Cymuned Spittal, CSP ac asiantaethau lleol eraill i:

- ❑ Edrych i mewn i'r posibilrwydd o adeiladu Lloches Fysus fodern newydd (ar gyfer plant ysgol)
- ♦ Sefydlu lôn feicio sy'n cysylltu â Hwlffordd ac sydd hefyd yn cysylltu ag Abergwaun
- ♦ Darparu cludiant cyhoeddus i gyswllt rheilffordd gwell
- ❑ Ymchwilio i'r posibiliadau o ddatblygu cynllun rhannu ceir a / neu fws cymunedol.

7. TAI A GWASANAETHAU

Sylwadaeth:
Yn ystod y trafodaethau a gafwyd yn y gweithdai darlunio cymunedol, awgrymwyd y dylai datblygiadau tai yn Spittal yn y dyfodol gael eu hanelu at annog pobl ifanc leol i aros yn yr ardal.

Roedd y trigolion yn teimlo y dylai fod yn bosibl i bobl ifanc barhau i fyw yn lleol petaent yn dymuno gwneud hynny. Byddai hynny'n galluogi iddynt ddefnyddio eu sgiliau a'u haddysg i roi hwb i'r economi leol.

Ar hyn o bryd, nid oes Nwy o'r prif gyflenwad yn Spittal. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn trefnu cymorthfeydd galw heibio. Mae yna hefyd gigydd teithiol, dyn llefrith, swyddfa bost deithiol, llyfrgell deithiol a phostmon arbennig o dda!

Mae'r trigolion wedi mynegi'r syniad o ddatblygu pecyn gofal cymunedol cynhwysfawr i drigolion hŷn. Ar hyn o brydmae yna Glwb Henoed sy'n cwrdd yn Neuadd yr Eglwys. Caiff Pryd ar Glud ei anfon allan o Hwlffordd.

Mae canlyniadau 'r holiadur cymunedol yn dangos bod y rhesymau dros symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, os na chawsant eu geni yma, yn ymwneud ag enw da'r ysgol gynradd, y gymuned brydferth a chyfeillgar, bod yn agos i Hwlffordd i weithio ac oherwydd y lleoliad canolog gyda mynediad hwylus i'r traethau a chefn gwlad. Y rhesymau dros unrhyw fwriad i symud o'r gymuned oedd diffyg tai fforddiadwy, rhesymau teuluol ac ar gyfer addysg a chyflogaeth. Nododd 6 theulu'r angen am dai lleol yn y dyfodol, yn enwedig eiddo fforddiadwy i'w rhentu a'i brynu.

Cynigion:
Gweithio gyda Chyngor Cymuned Spittal, Cyngor Sir Penfro ac asiantaethau lleol eraill:

- ❑ Edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu rhywfaint o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol.
- ❑ Datblygu gwasanaethau pellach megis
  - ♦ gwasanaethau gofal i'r henoed
  - ♦ gwasanaeth nwy o'r prif gyflenwad
  - ♦ gwasanaeth band eang gwell.
  - ♦ Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Clwb Cinio
  - ♦

GWEITHGORAU / GRWPIAU GWEITHREDU

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu'n mynd rhagddo'n effeithiol, cynigir y dylid sefydlu Fforwm Cymunedol. Gallai gweithgorau sicrhau bod y cynigion yn cael eu datblygu – gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Cymunedol cyfan – ac mewn ymgynghoriad

â'r Cyngor Cymuned i gysylltu â darparwyr perthnasol e.e. yr Awdurdod Priffyrdd.

Gallai'r Gweithgorau roi sylw i'r hyn a ganlyn:

- ❑ Y Gymuned - cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebu
- ❑ Yr Amgylchedd – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff
- ❑ Treftadaeth
- ❑ Busnes a Menter
- ❑ Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned ar:
- ❑ Dai a Gwasanaethau.
- ❑ Cludiant, Traffig a Phriffyrdd

Mae'n bwysig bod y Grwpiau yn:

- ❑ Gweithio yn unol â'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno ac yn adrodd yn ôl i Fforwm Cymunedol
- ❑ Gweithio gyda'r grwpiau presennol, gan gynnwys y Cyngor Cymuned ac asiantaethau.
- ❑ Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- ❑ Sicrhau bod y gymuned ehangach yn cael gwybod am y cynnydd a wneir.

Byddai PLANED a sefydliadau partner yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arian er mwyn helpu i ddatblygu'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

Y DARLUN MWY

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cynnwys y cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer y cynlluniau datblygu lleol a gwaith y byrddau gwasanaethau lleol.

O fewn y Cynllun Gofodol cyffredinol y mae Cynllun Gofodol Hafan Penfro sy'n hyrwyddo gweledigaeth o 'rwydwaith o gymunedau cryf sy'n cael eu cefnogi gan economi amrywiol, gynaliadwy a chadarn sy'n ychwanegu gwerth uchel, ac a gynhelir gan amgylchedd unigryw'r ardal, y mynediad i'r môr a chyfleoedd ym maes ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol.'

Y Cynllun Cymunedol – Ers dechrau 2000, mae partneriaeth o sefydliadau allweddol o'r sector cyhoeddus a gwirfoddol wedi bod yn gweithio ar Gynllunio Cymunedol. Mae'r awdurdod lleol, Cyngor Sir Penfro, yn gyfrifol am gymryd yr awenau i gyflawni'r weledigaeth, ynghyd â chefnogaeth gan bartneriaid, cymunedau lleol a phobl leol.

Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) – Mae Cyngor Sir Penfro wrthi'n paratoi cynllun datblygu lleol newydd . Y CDLl yw'r cynllun trosfwaol ar gyfer Sir Benfro – a gefnogir gan gasgliad o bartneriaethau, cynlluniau a strategaethau mwy manwl. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd yn datblygu ei gynllun datblygu ei hun ar gyfer Ardal y Parc Cenedlaethol.

Ei nod yw gwneud cyflawni gwasanaethau'n haws ac mae'n tynnu sylw at faterion 'ansawdd bywyd' allweddol. Mae'n gysylltiedig â'r adran 'Sir Benfro – Yr Hafan' yng Nghynllun Gofodol Cymru a gyda chynlluniau partneriaid allweddol megis y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Ymgynghorir â'r cymunedau ynghylch pob un o'r cynlluniau hyn, yn ogystal â strategaethau polisi, addysg, cludiant, tai ayb. Mae'n bwysig bod gan bobl leol fforwm i gyfarfod a thrafod syniadau ar gyfer y dyfodol gan ei fod yn paratoi'r ffordd ar gyfer gwneud ymatebion gwybodus i'r amrywiol ymgynghoriadau. Mae hefyd yn galluogi cymunedau i fanteisio ar y gefnogaeth a'r arian y gall y gwahanol awdurdodau eu cynnig yn y dyfodol o bosibl.